

Safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd eich ymatebion erbyn **14 Mawrth 2019** i'r cyfeiriad canlynol:

Y Gangen Addysgeg, Safonau Proffesiynol a Safon Uwch
Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir llenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: professionalstandardsreview@llyw.cymru

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno bod y gwerthoedd a'r ymagweddau, y pum safon a'u helfennau yn cynnig diben priodol a rennir ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo addysgu?

Cytuno	☒	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno bod y disgrifyddion arfer effeithiol (yn ogystal â'r disgrifyddion arfer effeithiol iawn a pharhaus sy'n gysylltiedig â phob elfen) yn cyfleu rôl cynorthwywyr addysgu (CA) a chynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALU)?

Cytuno	☒	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno y bydd y disgrifyddion sy'n gysylltiedig â phob elfen yn helpu CA a CALU i fyfrio ar eu harfer a darparu ffocws ar gyfer datblygiad proffesiynol?

Cytuno	☒	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n credu ei bod hi'n briodol i statws CALU fod yn seiliedig ar ddarparu tystiolaeth o gyflawni'r safonau a'r disgrifyddion perthnasol?

Cytuno	☐	Anghytuno	☒	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae gan rai CA/CALU gymwysterau arbennig o dda a byddai anwybyddu profiad blaenorol ac mi allai dibynnu ar ddarparu tystiolaeth dros gyfnod o amser cyn cael cydnabyddiaeth fod yn niweidiol i recriwtio.

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n credu y bydd defnyddio'r safonau ar gyfer cynorthwyo addysgu yn hyrwyddo pwysigrwydd y rôl ac yn helpu CA a CALU i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno bod adolygu perfformiad, ynghyd â mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol, yn allweddol i sicrhau bod y safonau'n cael y dylanwad mwyaf posibl ar arfer?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'n angenrheidiol i unigolion gael mynediad at ddysgu proffesiynol, ac mae'n rhaid i'r unigolyn gael mewnbwn i'r broses o benderfynu pa hyfforddiant sy'n addas; mae adolygu perfformiad – wedi'i wneud mor ffordd ddeallus - yn fodd o hwyluso hynny.

Cwestiwn 7 – Ydych chi'n credu, fel mater o egwyddor, y dylai adolygu perfformiad y rhai sy'n cynorthwyo addysgu fod yn ofyniad statudol fel rhan o bolisi adolygu perfformiad ysgolion (h.y. proses arfarnu orfodol a bennir mewn deddfwriaeth)?

Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	✓
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	---

Sylwadau ategol

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n credu bod yr amserlen arfaethedig a'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r safonau newydd yn realistig?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 9 – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai cyflwyno safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu yn eu cael ar y Gymraeg, ac yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 10 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y safonau arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 11 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Gan nad yw pob CA/CALU ar yr un fath o gontract, mae disgwyliadau'r Safonau'n gofyn iddynt wneud llawer iawn o waith yn eu hamser eu hunain; pan mae'r cyflogau mor isel mi allai achosi problemau o ran recriwtio a chadw.

Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r gofynion (er enghraifft, mewn perthynas â'r Pasbort Dysgu Proffesiynol) ar gyfer CA/CALU sydd â chontractau byr iawn.

Os symudir i gyfeiriad adolygu perfformiad statudol, bydd angen rhoi ystyriaeth i oblygiadau llwyth gwaith y rheolwyr llinell.

Yn y fersiwn Cymraeg, mewn nifer o fannau mae'r geiriad yn rhagdybio bod CA/CALU yn wrywaidd. Awgrymwn arall-eirio er mwyn osgoi'r broblem, e.e. Sleid 7: ...mae ganddo'r hawl...; sleid 27: ei draed; sleidiau 41, 42: ei ddealltwriaeth; sleid 43: ei allu; sleid 48: ei wybodaeth, ei ddealltwriaeth.

Rydym yn cwestiynu'r elfen dan bennawd 'Arweinyddiaeth: helpu addysgeg i dyfu' bod 'cynorthwydd addysgu yn cymryd cyfrifoldeb dros gefnogi atebolrwydd athrawon'; nid yw ystyr hyn yn glir, ac nid ydym yn teimlo bod y disgrifyddion yn gwneud y cysylltiad gydag atebolrwydd athrawon yn glir.

Dan bennawd yr elfen 'Iaith a Diwylliant Cymru', teimlwn yn gryf y dylai'r disgrifyddion (ar y ddwy lefel) roi mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg hyd eithaf eu gallu.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: